

No.

PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#). [Insert link]

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: R. Hendicott (Cadeirydd); L. Tinsley Is-Gadeirydd); R. Alexander, P. Hallett a G. Watkins (Aelodau Annibynnol), Cynghorwyr J.E. Charles a C.P. Franks.

194 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

195 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd R.M. Birch.

196 DATGANIADAU BUDDIANT –

Derbyniwyd y datganiadau canlynol -

Manteisiodd y Cynghorydd J.E Charles ar y cyfle i ymddiheuro i'r Pwyllgor ac i ddatgan buddiant yn ôl-weithredol mewn perthynas â'i chais am oddefeb yn ystod Agenda 6 ar agenda cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2022.

Datganodd y Cynghorydd Franks fuddiant mewn perthynas ag Atodiad 1 eitem 3 yr Agenda, o ystyried ei gais a oedd wedi'i gynnwys ymhlith y ceisiadau ail-lunio, a hefyd mewn perthynas â'i geisiadau mewn perthynas ag Atodiad 3 eitem 3 yr Agenda. Nid oedd y Cynghorydd Franks yn bresennol yn y cyfarfod pan oedd y ceisiadau yn ymwneud ag Atodiad 1 yr adroddiad a'i geisiadau yn Atodiad 3 yn cael eu hystyried.

Datganodd Mr G. Watkins gysylltiad personol agos o ran cais y Cynghorydd Asbrey ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod pan oedd y cais yn cael ei ystyried.

197 CAIS AM GANIATÂD (ASM/PGCD) -

Roedd Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 yn caniatáu i'r Aelodau wneud cais i'r Pwyllgor Safonau i siarad am, ac os yw'n briodol, i bleidleisio ar faterion na fyddent fel arall yn gallu siarad amdanynt neu bleidleisio arnynt neu aros yn yr ystafell wrth iddynt gael eu trafod oherwydd buddiannau rhagfarnol.

Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2022, cytunwyd y dylid trefnu cyfarfod arbennig cyn toriad mis Awst i ystyried y ceisiadau hwyr, ac eithrio'r ceisiadau ail-lunio hwyr, a dderbyniwyd ar ôl i'r agenda gael ei hanfon.

Wrth ystyried rhai ceisiadau gollyngiadau a gyflwynwyd, gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth fel a ganlyn:

- O ran cais y Cynghorydd Franks, holodd y Pwyllgor Safonau am ei sefyllfa o ran Llyfrgell a Chanolfan Weithgareddau Dinas Powys a Dinas Powys Voluntary Concern. Cafodd y Pwyllgor wybod bod y Cynghorydd Franks yn aelod / ymddiriedolwr gwirfoddol i'r ddau sefydliad.
- O ran cais y Cynghorydd Driscoll mewn perthynas â Heol Holltwn, dywedodd y Swyddog Monitro fod cais blaenorol wedi'i gymeradwyo i siarad yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2017 yn unig ac felly o ganlyniad i Etholiadau Llywodraeth Leol mis Mai 2022 roedd angen cyflwyno cais newydd. Gan ystyried y ffaith fod y Cynghorydd Driscoll yn berchen ar eiddo yr oedd yn ei rentu ar Heol Holltwn, a hyd sylweddol Heol Holltwn, roedd y Pwyllgor o'r farn os oedd y Cynghorydd Driscoll yn credu nad oedd ganddo fuddiannau personol a rhagfarnol mewn materion sy'n effeithio ar ben uchaf Heol Holltwn ac nad oedd ganddynt unrhyw berthnasedd i'w fusnes na'i eiddo ar ben arall Heol Holltwn y dylid ei gynghori i ofyn am gyngor pellach gan y Swyddog Monitro pe bai materion sy'n effeithio ar y maes hwnnw yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Cyngor.
- Wrth ystyried cais y Cynghorydd Cowpe am ganiatáu gollyngiad, yn ymwneud ag Ail-lunio a Gwasanaethau Llyfrgelloedd, dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor ofyn i gais manwl yn ymwneud â chais am ollyngiad mewn perthynas â'r rhan Gwasanaethau Llyfrgelloedd o'r cais gael ei gyflwyno.
- Wrth ystyried y pedwar cais gan Gyngor Cymuned Llandochoau oherwydd nifer y penodiadau ymddiriedolwyr a wnaed gan y Cyngor Cymuned fel ymddiriedolwyr Sefydliad Cofeb Ryfel Llandochoau, cytunodd y Pwyllgor fod dau aelod o'r pedwar sef y Cynghorydd Edwards (Cadeirydd) a'r Cynghorydd Misra (Cadeirydd blaenorol) yn cael siarad a phleidleisio ar faterion gyda'r ddau aelod sy'n weddill yn cael eu gollwng i siarad yn unig, gan roi sylw i baragraff (a) o'r amgylchiadau pan gaiff Pwyllgor Safonau ganiatáu gollyngiadau.

Yn dilyn y trafodaethau yn y cyfarfod fel yr amlinellir uchod, penderfynwyd

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y goddefebau fel y'u nodir yn yr atodlen isod yn cael eu caniatáu hyd at ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf:

Aelod sy'n Gofyn am Oddefeb	Paragraff(au) Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001 - y caniateir goddefebau oddi tanynt ac y gwnaed cais amdanynt oddi tanynt	Penderfyniad
Y Cynghorydd A. Asbrey	(a), (c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Dinas Powys
Y Cynghorydd M. Cowpe	(a), (c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Dinas Powys
Y Cynghorydd V.P. Driscoll	(a), (c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Dinas Powys
Y Cynghorydd C.P. Franks	(a), (c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro

No.

		Morgannwg a Chyngor Cymuned Dinas Powys
Y Cynghorydd J. Lynch- Wilson	(a), (c) a (ch)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar bynciau sy'n gysylltiedig â rhaglen ail-lunio Cyngor Bro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Sain Tathan
Y Cynghorydd P. Carreyett	(a)	Rhoi caniatâd i siarad yn unig, yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llandochau ar faterion sy'n ymwneud â Sefydliad Coffa Rhyfel Llandochau fel Prif Ymddiriedolwr yr elusen
Y Cynghorydd M Edwards	(a)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llandochau ar faterion sy'n ymwneud â Sefydliad Coffa Rhyfel Llandochau fel Prif Ymddiriedolwr yr elusen
Y Cynghorydd D. Mears	(a)	Rhoi caniatâd i siarad yn unig, yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llandochau ar faterion sy'n ymwneud â Sefydliad Coffa Rhyfel Llandochau fel Prif Ymddiriedolwr yr elusen
Y Cynghorydd Dr. M. Misra	(a)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llandochau ar faterion sy'n ymwneud â Sefydliad Coffa Rhyfel Llandochau fel Prif Ymddiriedolwr yr elusen
Y Cynghorydd V.P. Driscoll	(ch) a (dd)	Rhoi caniatâd i siarad yn unig, lle mae materion yn cael eu codi mewn perthynas â Heol Holltwn, y Barri yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg.
Y Cynghorydd C.P. Franks	(ch), (dd), (e) ac (f)	Rhoi caniatâd i siarad yn unig, ar faterion sy'n ymwneud â Llyfrgell a Chanolfan Gweithgareddau Dinas Powys (gan gynnwys ceisiadau am

No.

		grantiau) pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Dinas Powys
Y Cyngorydd C.P. Franks	(ch), (dd), (e) ac (f)	Rhoi caniatâd i siarad yn unig, ar faterion sy'n ymwneud â Dinas Powys Voluntary Concern (gan gynnwys ceisiadau am grantiau) pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Dinas Powys
Y Cyngorydd Dr I.J. Johnson;	(c), (ch), (dd) ac (e)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â chelfyddydau a digwyddiadau ym Mro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri
Y Cyngorydd Dr I.J. Johnson;	(c), (ch), (dd) ac (e)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â chyfleusterau chwaraeon ym Mro Morgannwg pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri
Y Cyngorydd Dr I.J. Johnson;	(c), (ch) a (dd)	Rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â chanolfannau cymunedol pan gânt eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref y Barri
Y Cyngorydd S. Lloyd-Selby	(ch) a (dd)	Rhoi caniatâd i siarad yn unig, ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau Teleofal a Phecyn Gofal yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg.
Y Cyngorydd D. Willmott	(i)	Rhoi caniatâd i siarad yn unig, yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Sain Tathan ar faterion sy'n ymwneud â Hyb Cymunedol a Llyfrgell Sant Tathan (gan gynnwys ceisiadau am grantiau)

Y Cyngorydd M.R. Wilson	(ch), (dd), (e) ac (ff)	Rhoi caniatâd i siarad yn unig, ar faterion sy'n ymwneud â Fforwm Masnach Deg Penarth yng Nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg.
Y Cyngorydd M.R. Wilson	(ch), (dd), (e) ac (ff)	Rhoi caniatâd i siarad yn unig, ar faterion sy'n ymwneud â Neuadd Glyndwr yng Nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg.
Y Cyngorydd M.R. Wilson	(ch), (dd), (e) ac (ff)	Rhoi caniatâd i siarad yn unig, ar faterion sy'n ymwneud â Choleg Caerdydd a'r Fro yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg.

(2) Rhoi gwybod i'r Cyngorydd Cowpe, mewn perthynas â'r cais am oddefeb yn ymwneud â Gwasanaethau Llyfrgell, fel y'i ceir o fewn y cais ail-lunio ar yr agenda, y caiff y mater ei ystyried i'w benderfynu mewn cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol yn dilyn cyflwyno cais manylach, os bydd y Cyngorydd Cowpe am wneud hynny.

(3) Rhoi gwybod i'r Cyngorydd Driscoll, mewn perthynas â'i gais am oddefeb, o ystyried hyd Heol Holltwn, y dylai gael cyngor gan y Swyddog Monitro os yw'n credu nad oes ganddo fuddiant personol na niweidiol mewn materion sy'n effeithio ar ben uchaf Heol Holltwn ac nad oes ganddynt unrhyw berthnasedd i'w fusnes neu ei eiddo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cydymffurfio â'r rheoliadau a'r rhwymedigaethau ar gyfer rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio.

(2) Caniatáu cyflwyno cais manylach i'w ystyried.

(3) O ystyried hyd Heol Holltwn ac agoswydd at eiddo'r Cyngorydd Driscoll.